# *Cyngor Sir Ynys Môn*
# Cynllluniau Grant yn 88 Stryd y Farchnad, Caergybi

# *Isle of Anglesey County Council*
# Grant schemes at 88 Market Street, Holyhead

*Chwefror 2012*

*February 2012*

# Casgliadau

Mae'r etholwr wedi honni bod twyll wedi'i gynllunio er mwyn sicrhau na fyddai'n rhaid i'r etholwr wneud cyfraniad ariannol personol tuag at gost y gwaith ar yr eiddo. Er mwyn i'r cyfryw dwyll lwyddo, byddai'n rhaid i'r ffactorau canlynol fod yn bresennol:

- Byddai'n rhaid cymeradwyo grant ar sail gwerth gorddatganedig gwaith.
- Byddai'n rhaid cwblhau'r gwaith am uchafswm cyfanswm cost o £84,878, sy'n cynnwys £47,378, sef cyfanswm y grant a gymeradwywyd mewn perthynas â Grant Gwella Trefi, a £37,500 a gymeradwywyd mewn perthynas â Grant Cartrefi Gwag.
- Byddai'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon rhyddhau swm llawn y grantiau. Er mwyn gwneud hynny, naill ai byddai angen i swyddogion y Cyngor anwybyddu amodau'r grant a ddogfennwyd neu byddai angen iddynt gael eu camarwain o ran gwerth y gwaith a gwblhawyd a lefel y cyfraniad personol a wnaed gan yr etholwr.

Rydym wedi dod i'r casgliadau canlynol:

## Cymeradwyo grant

Cymeradwywyd grantiau ar sail amcangyfrifon o gostau a roddwyd gan yr asiantiaid. Roedd yr amcangyfrifon hyn o gostau yn seiliedig ar y dyfynbrisiau a roddwyd gan yr adeiladwr a ddewiswyd yn wreiddiol i wneud y gwaith.

Ceisiodd Prif Swyddog Technegol y Cyngor gadarnhad gan yr adeiladwr newydd a ddewiswyd i wneud y gwaith y byddai'n cwblhau'r gwaith am yr un gost a dendrwyd â'r gwaith gwreiddiol. Rhoddwyd llythyr i ni yr ymddengys ei fod wedi'i lofnodi gan y contractwr adeiladu newydd, heb ddyddiad, sy'n nodi ei fod yn cytuno i wneud y gwaith mewn perthynas â'r Grant Cartrefi Gwag am y gost wreiddiol a dendrwyd. Mae'r etholwr yn honni bod y llythyr hwn oddi wrth y contractwr adeiladu wedi'i ffugio.

Cymeradwywyd y Grant Gwella Trefi ar sail y rhestr wreiddiol o waith a ddiwygiwyd o ran ychwanegiadau a hepgoriadau a wnaed gan yr ail asiant. Nid ydym yn ymwybodol i'r adeiladwr gadarnhau y byddai'n gwneud y gwaith yn unol â'r rhestr ddiwygiedig o waith.

Ar sail y dystiolaeth a roddwyd ni ellir dod i gasgliad o ran pa un a gymeradwywyd grantiau ar sail gorddatganiad o werth y gwaith.

## Cwblhau'r gwaith

Er gwaethaf cwynion yr etholwr ynghylch ansawdd y gwaith, mewn cyfarfod ar y safle a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2007 cafwyd cytundeb cyffredinol ymhlith y rhai a oedd yn bresennol fod y gwaith wedi'i gwblhau yn amodol ar rai eitemau snagio. Ardystiwyd bod yr holl waith mewn perthynas â'r Grant Gwella Trefi wedi'i gwblhau gan yr Uwch Swyddog Cynllunio. Fodd bynnag, nid ardystiwyd bod y gwaith mewn perthynas â'r Grant Cartrefi Gwag wedi'i gwblhau. Nododd yr adeiladwr yn y cyfarfod hwnnw fod tua un neu ddau ddiwrnod o waith i'w wneud o hyd.

Pan roddwyd terfyn ar y gwaith ar yr eiddo, roedd cyfanswm o £85,472 wedi'i dalu i'r ail asiant a'r adeiladwr, sydd £594 yn fwy na chyfanswm y grant a gymeradwywyd. Mae pob un o'r taliadau a wnaed i'r adeiladwr gan yr etholwr a'r Cyngor wedi'i ategu gan anfonebau gan yr adeiladwr. Fodd bynnag, mae nifer o anfonebau gan yr adeiladwr am yn union yr un symiau, na thalwyd pob un ohonynt. At hynny, mae'r adeiladwr wedi nodi bod arian yn ddyledus iddo o ran y gwaith. Nododd yr adeiladwr yn gyntaf fod tua £27,000 yn ddyledus iddo ym mis Hydref 2007. Ym mis Hydref 2009, tua dwy flynedd yn ddiweddarach ysgrifennodd yr adeiladwr at y Cyngor gan nodi ei fod wedi codi anfonebau gwerth £36,812.29 am waith na thalwyd amdano. Nid ydym wedi gweld yr anfonebau hyn ac ni wnaed unrhyw geisiadau am i arian grant gael ei ryddhau ar sail y symiau ychwanegol hyn.

Pan roddwyd terfyn ar y gwaith ar yr eiddo, roedd cyfanswm gwerth ardystiedig y gwaith a hawliwyd gan yr etholwr o ran cynlluniau'r Grant Gwella Trefi a'r Grant Cartrefi Gwag £22,874 yn fwy na'r taliadau a wnaed i'r adeiladwr a'r asiant. Dadansoddir hyn fel a ganlyn:

| | **£** |
|---|---|
| Gwerth ardystiedig y gwaith yn gysylltiedig â'r Grant Gwella Trefi | 52,923 |
| Gwerth ardystiedig y gwaith yn gysylltiedig â'r Grant Cartrefi Gwag | 46,000 |
| Cyfanswm gwerth y gwaith ardystiedig | 98,923 |
| **Llai:** | |
| Taliadau i'r adeiladwr gan yr etholwr | (57,299) |
| Taliadau i'r adeiladwr gan y Cyngor o ran y Grant Cartrefi Gwag | (18,750) |
| Balans sy'n weddill | 22,874 |

At hynny, pan gymerir gwerth ardystiedig y gwaith â chyfanswm y gost a gymeradwywyd ar gyfer y ddau gynllun, sef £124,796, mae gwaith gwerth £9,450 i'w wneud neu ei ardystio o hyd. Dadansoddir hyn fel a ganlyn:

| **Cynllun** | **Cyfanswm y gost a gymeradwywyd (heb gynnwys ffioedd asiantiaid) £** | **Gwerth ardystiedig y gwaith £** | **Gwerth y gwaith sy'n weddill £** |
|---|---|---|---|
| Grant Gwella Trefi | 52,923 | 52,923 | - |
| Grant Cartrefi Gwag | 62,450 | 46,000 | 16,450 |
| **Cyfanswm** | **115,373** | **98,923** | **16,450** |

Felly, mae'r dystiolaeth o ran cyfanswm cost y gwaith a gwblhawyd a faint o waith sydd i'w gwblhau ar yr eiddo yn anghyson.

## Rhyddhau arian grant

Dyfarnwyd Grant Gwella Trefi ar lefel o 80% o waith cymwys gyda gofyniad ychwanegol i'r Uwch Swyddog Cynllunio gymeradwyo cais i ddefnyddio £10,000 o arian wrth gefn a gynhwyswyd yn ffigurau'r gwaith cymwys a gymeradwywyd. Pan roddwyd terfyn ar y gwaith ar yr eiddo, roedd yr holl arian mewn perthynas â'r Grant Gwella Trefi wedi'i dalu i'r etholwr. Roedd hyn yn cynnwys Grant Gwella Trefi mewn perthynas â'r swm wrth gefn.

Rhyddhawyd arian Grant Gwella Trefi mewn tair cyfran fel a ganlyn:

| **Dyddiad** | **Swm a dalwyd £** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| 29 Ebrill 2007 | 28,486 | Paratowyd y ffurflen cais am grant gan yr Uwch Swyddog Cynllunio ac fe'i llofnodwyd gan yr etholwr. Deallwn i'r Uwch Swyddog Cynllunio gwblhau'r ffurflen gais er mwyn cynorthwyo'r etholwr. Roedd y cais yn seiliedig ar anfoneb gan yr adeiladwr am £29,375 yn cynnwys TAW a dilynodd dystysgrif gwaith gan yr ail asiant ac archwiliad o'r safle gan yr Uwch Swyddog Cynllunio. Mae'r gwaith a ardystiwyd gan yr asiant wedi'i ategu gan anfoneb gan yr adeiladwr a dalwyd gan yr ymgeisydd. |

| Dyddiad | Swm a dalwyd £ | Sylwadau |
|---|---|---|
| 7 Awst 2007 | 14,892 | Paratowyd y ffurflen gais am grant unwaith eto gan yr Uwch Swyddog Cynllunio ac fe'i llofnodwyd gan yr etholwr. Unwaith eto, deallwn i'r Uwch Swyddog Cynllunio gwblhau'r ffurflen gais er mwyn cynorthwyo'r etholwr. Ymddengys fod y cais yn seiliedig ar anfoneb gan yr adeiladwr am £17,625 yn cynnwys TAW a dilynodd dystysgrif gwaith arall gan yr ail asiant ac archwiliad o'r safle gan yr Uwch Swyddog Cynllunio. Mae'r dystysgrif gwaith a roddwyd gan yr asiant yn nodi bod £47,000 wedi'i dalu i'r adeiladwr gan yr etholwr a bod £6,394.82 yn ddyledus o hyd. Fodd bynnag, mae £17,625 o'r £47,000 a dalwyd wedi'i hawlio fel taliad ar gyfer Grant Gwella Trefi a Grant Cartrefi Gwag ac nid oes unrhyw anfoneb gan yr adeiladwr am swm sy'n cyfateb i £6,394.82. Awgryma'r dystiolaeth fod y swm o £17,625 a dalwyd i'r adeiladwr ar 9 Mai 2007 yn ymwneud â Grant Cartrefi Gwag yn hytrach na Grant Gwella Trefi. Felly, mae'n bosibl i'r Cyngor gael ei gamarwain i ryddhau arian Grant Gwella Trefi pan nad aed i unrhyw wariant cymwys ychwanegol mewn perthynas â Grant Gwella Trefi. |
| 19 Chwefror 2008 | 4,000 | Paratowyd y ffurflen cais am grant gan yr Uwch Swyddog Cynllunio ac fe'i llofnodwyd gan yr etholwr. Dilynodd y cais archwiliad o'r safle gan yr Uwch Swyddog Cynllunio a gadarnhaodd fod yr holl waith mewn perthynas â Grant Gwella Trefi wedi'i gwblhau ond nis ategir gan dystysgrif gwaith gan yr asiant nac anfoneb gan yr adeiladwr. Unwaith eto, mae'n bosibl i'r Cyngor gael ei gamarwain i ryddhau arian Grant Gwella Trefi pan nad aed i unrhyw wariant cymwys ychwanegol mewn perthynas â Grant Gwella Trefi. |
| **Cyfanswm** | **£47,378** | |

Amodau dyfarnu'r swm o £37,500 mewn arian Grant Cartrefi Gwag oedd y byddai'r etholwr yn cyfrannu £26,751.07 ei hun cyn i unrhyw arian Grant Cartrefi Gwag gael ei ryddhau. Pan roddwyd terfyn ar y gwaith ar yr eiddo, roedd y Cyngor wedi talu £18,750 yn uniongyrchol i'r adeiladwr o ran Grant Cartrefi Gwag, gan adael Grant Cartrefi Gwag gwerth £18,750 i'w ryddhau o hyd.

Rhyddhawyd arian Grant Cartrefi Gwag mewn dwy gyfran fel a ganlyn:

| Dyddiad | Swm a dalwyd £ | Sylwadau |
|---|---|---|
| 6 Gorffennaf 2007 | 10,299.92 | Mae hyn yn seiliedig ar anfoneb a gyflwynwyd gan yr adeiladwr ar 2 Gorffennaf 2007 a thystysgrif gwaith gan yr asiant a llythyr oddi wrth yr asiant yn nodi bod yr etholwr wedi talu ei gyfraniad yn llawn. Er mwyn i'r llythyr oddi wrth yr asiant fod yn gywir, byddai'n rhaid i'r £17,625 a dalwyd gan yr etholwr i'r adeiladwr ar 9 Mai 2007 fod wedi ymwneud â Grant Cartrefi Gwag yn hytrach na Grant Gwella Trefi. Fodd bynnag, fe'i hawliwyd fel taliad am gynllun y Grant Gwella Trefi a chynllun y Grant Cartrefi Gwag, sy'n amlwg yn anghywir. Felly, mae'n bosibl i'r Cyngor gael ei gamarwain i ryddhau Grant Cartrefi Gwag ar y sail bod yr etholwr wedi talu ei gyfraniad yn llawn. Fodd bynnag, awgryma'r dystiolaeth fod y taliad a wnaed gan yr etholwr ar 9 Mai 2007 yn ymwneud â Grant Cartrefi Gwag yn hytrach na Grant Gwella Trefi. Mae Tystysgrif Taliad Interim 1af y Cyngor yn nodi mai'r swm hwn yw prisiad gwaith sydd wedi cael cymorth grant hyd yma. Mae'r memorandwm o blaid talu grant yn nodi i'r gwaith gael ei archwilio gan y Cynorthwyydd Technegol, Grantiau Tai ar 4 Gorffennaf 2007 |

| Dyddiad | Swm a dalwyd £ | Sylwadau |
|---|---|---|
| 4 Rhagfyr 2007 | 8,450.07 | Yn seiliedig ar dystysgrif gwaith gan yr asiant ac anfoneb gan yr adeiladwr dyddiedig 26 Medi 2007. Gwnaed y taliad hefyd ar ôl i'r Prif Swyddog Technegol a'r Cynorthwyydd Technegol Grantiau Tai fod yn bresennol mewn cyfarfod ar y safle a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2007. |
| **Cyfanswm** | **18,749.99** | |

Gwnaeth yr etholwr gyfanswm o dri thaliad i'r adeiladwr. Er y cytunir bod y cyntaf o'r tri thaliad hyn yn ymwneud â chynllun y Grant Gwella Trefi, mae'r dystiolaeth o ran a oedd yr ail daliad a'r trydydd taliad yn ymwneud â chynllun y Grant Gwella Trefi neu'r Grant Cartrefi Gwag yn anghyson. Cafwyd gwahanol ddisgrifiadau o sut y dylid dyrannu taliadau'r etholwr. Am nad yw anfonebau'r adeiladwr yn cynnwys digon o fanylion ac am nad oes unrhyw restrau o waith a gwblhawyd ni ellir penderfynu'n derfynol sut y dylid dyrannu ei ail a'i drydydd taliad. Fodd bynnag, ymddengys fod y dystiolaeth yn awgrymu bod y taliadau hyn yn ymwneud â chynllun y Grant Cartrefi Gwag.

Mae'r ansicrwydd mwyaf yn ymwneud â'r swm o £17,625 a dalodd yr etholwr i'r adeiladwr ar 9 Mai 2007. Mae'r taliad hwn wedi'i gynnwys yn llawn yn nhystysgrifau'r Grant Cartrefi Gwag a'r Grant Gwella Trefi ac ymddengys fod y dyblygu hwn wedi'i ddefnyddio'n fwriadol i alluogi'r ymgeisydd i gael arian grant nad oedd ganddo hawl i'w gael.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut y dylid bod wedi ariannu cyfanswm y taliadau gwirioneddol, sef £85,471.49 (£9,422.50 i'r asiant a £76,048.99 i'r adeiladwr) a wnaed o dan y ddau gynllun o gymharu â'r modd y cafodd ei ariannu, gan dybio mai dim ond y taliad cyntaf a wnaed i'r adeiladwr gan yr etholwr a oedd yn ymwneud â chynllun y Grant Gwella Trefi:

| | Sut y dylid bod wedi ariannu'r taliadau | Sut yr ariannwyd y taliadau | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Yr etholwr | £38,182 | £19,344 | £18,838 |
| Y Cyngor/ Llywodraeth Cynulliad Cymru | £47,290 | £66,128 | (£18,838) |
| **Cyfanswm** | **£85,472** | **£85,472** | **-** |

Mae cyfraniad yr etholwr yn cynnwys cyfanswm y taliadau y tybir iddo eu gwneud mewn perthynas â Grant Cartrefi Gwag, sef £31,047 (sy'n cynnwys £3,123 i'r asiant a £10,299 a £17,625 i'r adeiladwr) ac 20% o'r swm y tybir iddo ei wario mewn perthynas â Grant Gwella Trefi, sef £35,675 (sy'n cynnwys £6,300 i'r asiant a £29,375 i'r adeiladwr).

Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynglŷn â pha grant yr oedd y swm o £17,625 a dalwyd gan yr etholwr i'r adeiladwr ar 9 Mai 2007 yn ymwneud ag ef. Os oedd y taliad hwn yn ymwneud â Grant Gwella Trefi nid oedd yr etholwr wedi talu ei gyfraniad yn llawn ac ni ddylai'r Cyngor fod wedi rhyddhau unrhyw arian Grant Cartrefi Gwag. Yn y senario hwn, mae Grant Gwella Trefi gwerth £4,738 wedi'i ordalu i'r etholwr, sef 80% o daliadau gwerth £47,000 a wnaed i'r adeiladwr a ffioedd asiant gwerth £6,300 o gymharu â'r Grant Gwella Trefi a gafwyd, sef £47,378. At hynny, mae'r etholwr wedi elwa ar benderfyniad y Cyngor i ryddhau £14,652 mewn arian Grant Cartrefi Gwag i'r adeiladwr cyn i'r etholwr dalu ei gyfraniad personol yn llawn am mai £10,299 y cyfrannodd ei hun yn hytrach na £24,951.

## Casgliadau terfynol

Am nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau'n llawn ac am nad oes unrhyw gyfrif terfynol ni ellir asesu a oedd twyll cymhleth wedi'i gynllunio neu a fyddai'r cyfryw dwyll wedi'i ganfod gan y Cyngor yn ystod y broses ardystio a thalu derfynol ar gyfer Grant Cartrefi Gwag.

Pan roddwyd terfyn ar y gwaith ar yr eiddo, roedd y Cyngor wedi rhyddhau grantiau a oedd o leiaf £18,838 yn fwy na'r swm y mae gan yr etholwr hawl i'w gael.

Pe paratowyd y cyfrif terfynol gan ddangos bod gwerth y gwaith a wnaed yn llai na'r gwerth a amcangyfrifwyd at ddibenion cymeradwyo grantiau, byddai angen newid lefel yr arian grant a chyfraniad yr etholwr yn unol â hynny. Heb gwblhau'r gwaith a heb dystysgrifau terfynol, ni ellir asesu i ba raddau y byddai angen gwneud hynny.

Am nad yw'r gwaith erioed wedi'i gwblhau ac am na chwblhawyd tystysgrifau terfynol na cheisiadau am daliadau rydym o'r farn bod y Cyngor wedi gweithredu'n briodol drwy beidio â rhyddhau'r arian Grant Cartrefi Gwag sy'n weddill. Am fod cynllun y Grant Cartrefi Gwag wedi'i gyfyngu gan amser, mae'r Cyngor wedi cymryd camau priodol drwy geisio sicrhau tâl ar yr eiddo er mwyn adfachu'r arian Grant Cartrefi Gwag a dalwyd.

Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at yr etholwr ar 30 Medi 2011 gan nodi nad yw'n bwriadu adfachu unrhyw arian Grant Gwella Trefi a dalwyd. Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn na ddylid bod wedi rhyddhau arian Grant Gwella Trefi yn llawn ac y dylai'r Cyngor a Llywodraeth Cymru barhau i ystyried a yw'n briodol cymryd camau pellach i adennill arian Grant Gwella Trefi a ordalwyd i'r etholwr.